**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/ **MA/EM/1465/21**

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.cymru

24 Mawrth 2021

Annwyl David Rees,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lle gwnaethoch nodi casgliadau'r pwyllgor wedi iddo ystyried y Fframwaith Dros Dro ar gyfer Diogelwch Bwyd a Phorthiant. Rwyf yn ymateb oherwydd bod diogelwch bwyd yn rhan o'm portffolio a nodaf eich bod yn eich llythyr yn gofyn am eglurder pellach ar nifer o bwyntiau. Rwyf wedi ymateb i'r cyfan o dan y themâu priodol isod.

<u>Craffu ar y fframwaith</u>

Caiff yr adroddiad blynyddol ei gyhoeddi a bydd ar gael ar gyfer y Senedd. Mae'r broses o ddarparu'r fframwaith wedi'i nodi gan Dimau Fframweithiau Canolog ym mhob un o weinyddiaethau'r DU yn unol ag egwyddorion y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE). Mae'r broses yn gyfle i bwyllgorau seneddol graffu arno yn ystod y cyfnod adolygu yn unig, cyn i Weinidogion ei gymeradwyo'n derfynol. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau unwaith y bydd ystyriaethau o ddatblygiadau diweddar wedi'u hymgorffori.

<u>Tryloywder</u>

Mae Uned Asesu Risg yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn cynnal asesiadau risg ar ran pob gwlad lle mae'r ASB yn gweithredu a gall gynhyrchu asesiadau risg ledled y DU. Yn fewnol ac yn allanol, bydd yr ASB yn rhoi esboniad clir o ganfyddiadau'r asesiadau risg a sail penderfyniadau rheoli risg i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid y diwydiant a phartïon eraill â diddordeb. Bydd yr ymchwil defnyddwyr y mae'r ASB yn ei chynnal fel rhan o'r broses dadansoddi risg yn cynnwys mewnwelediad gan ddefnyddwyr ar lefel genedlaethol. Bydd tystiolaeth yn cael ei chyhoeddi, fel y gall rhanddeiliaid lunio barn wybodus ar brosesau a phenderfyniadau. Bydd yr asesiadau risg mwyaf arwyddocaol yn cael eu hystyried mewn



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfarfod agored o Fwrdd yr ASB, yn gyhoeddus, cyn i'r ASB gyflwyno ei chyngor i Weinidogion Cymru.

Cynhelir gwaith ymgysylltu hefyd drwy Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC). Mae WFAC yn cyfarfod cyn pob cyfarfod o Fwrdd yr ASB i drafod y papurau sydd gerbron Bwrdd yr ASB ac yn rhoi mewnbwn a chyngor a safbwynt Cymreig ar y materion sydd gerbron y Bwrdd. Yna, mae'r aelod o Fwrdd Cymru yn cyfrannu hynny at gyfarfodydd Bwrdd yr ASB.

Yn ogystal, bydd mewnbwn partneriaeth Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (BDCaDC) yn darparu fforwm i weithio gyda Llywodraeth Leol a phartneriaid allweddol eraill yng Nghymru, i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni polisi ac arfer cyfraith bwyd yng nghyd-destun ystyriaethau ehangach o ran polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae aelodau SSAFW yn cynnwys yr ASB yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, awdurdod lleol, sefydliadau proffesiynol fel Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, grwpiau buddiannau defnyddwyr, cynrychiolwyr y diwydiant, CLlLC a'r Canolfannau Diwydiant Bwyd. At hynny, bydd unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol yn destun ymgynghoriad, yn unol â chanllawiau a nodir gan Lywodraeth Cymru.

Gweithrediad a Llywodraethiant

Rwyf wedi cydnabod bod angen mwy o gapasiti ar ASB Cymru ac rwyf wedi rhoi cynnydd o £1.5m i'w chyllideb flynyddol i sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion y dyfodol. Bydd hyn yn cynyddu'r capasiti staffio i alluogi staff yr ASB yng Nghymru i gyfrannu at ddatblygu argymhellion polisi ar benderfyniadau rheoli risg i Gymru. At hynny, mae'r ASB wedi cynyddu capasiti gwyddonol y gwaith ar Wyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil ac wedi sefydlu tri Grŵp Arbenigol ar y Cyd newydd i helpu i sicrhau'r dystiolaeth wyddonol orau ar gyfer asesiadau risg bwyd a phorthiant y DU ar gynhyrchion a reoleiddir.

Bydd y Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn parhau i graffu ar ASB Cymru a rhoi cyngor penodol i Gymru iddi, ac mae'r cadeirydd yn aelod o Fwrdd cenedlaethol yr ASB. Mae fy uwch swyddogion hefyd yn aelodau o Grŵp Rheoli Risg y pedair gwlad, a fydd yn darparu system ar gyfer trafod opsiynau rheoli risg ar gyfer materion diogelwch bwyd a phorthiant anifeiliaid nad ydynt yn rhai arferol yn y DU. Bydd hyn yn helpu i roi mwy o hyder ym mhrosesau dadansoddi risg y DU drwy gyflwyno trylwyredd a sicrwydd ychwanegol. Mae fy swyddogion hefyd yn cynnal adolygiad o goncordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r ASB i sicrhau bod hyn yn amlinellu llywodraethiant, rolau a chyfrifoldebau clir.

O ran gwahaniaethau yn y polisi, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am ddiogelwch a hylendid Bwyd a Phorthiant mewn perthynas â Chymru, ond yr ASB yng Nghymru sy'n gyfrifol am y polisi. Felly, ceir perthynas rhwng cyfrifoldebau deddfwriaethol Gweinidogion Cymru a'r dull arfaethedig yn y fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant, er nad yw'r fframwaith ei hun yn cynnwys gofynion deddfwriaethol ar hyn o bryd. Felly, byddai unrhyw argymhellion ar gyfer gwahanol ddulliau polisi yn cael eu hategu gan dystiolaeth a ystyriwyd drwy broses dadansoddi risg annibynnol, drylwyr yr ASB, sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Byddai Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad yn ymwybodol o argymhellion y gwledydd eraill a byddai ganddynt y gallu i godi'r mater i'w drafod gyda'u cymheiriaid o dan broses datrys anghydfodau'r Fframwaith. Ar gyfer unrhyw benderfyniadau terfynol, byddai angen i'r ASB fel yr awdurdod cymwys roi argymhellion i Weinidogion Cymru.

Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol

Pwerau cydamserol y cytunwyd arnynt yn flaenorol ar gais swyddogion Llywodraeth Cymru ym maes cymhwyso rheolaethau swyddogol a gyfer porthiant a bwyd sy'n faes polisi trawsbynciol. Mae'r pwerau cydamserol hyn yn gyfyngedig iawn. Nid yw'r Fframwaith yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer pwerau cydamserol.

Byddai unrhyw newidiadau i'r fframwaith cyffredin o fewn y maes polisi diogelwch a hylendid bwyd a phorthiant yn destun proses graffu lawn gan y Senedd a'r trothwy uchel sydd yn ei le fel rhan o'r canllawiau a amlinellwyd eisoes.

Yr eiddoch,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language